# Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

## Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar
## nos Lun 18fed Gorffennaf 2016 am 7pm

Presennol: Cynghorydd Richard Evans (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Alan Hugh Jones, Bethan Lawton, Ieu Thomas, Peter Parker, Arwel Pierce, Simon Jones

1. Ymddiheuriadau: Dim

2. Datgan diddordeb: Dim

3. Derbyn cofnodion 20 Mehefin 2016

Diolchwyd i'r Cynghorwyr Bethan Lawton a Alan H Jones am lanhau'r Pafiliwn.
Nodwyd nad oedd y ddyled gan y Clwb Pêl-droed wedi ei dalu.
Nodwyd bod cyflwr y cae yn dda yn ystod diwrnod Carnifal.

**PENDERFYNIAD:** Cynigwyd gan y Cynghorydd Richard Evans, eiliwyd gan y Cynghorydd Arwel Pierce

4. Cyfrifon i'w talu:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Playsafety | ROSPA | 101501 | £88.20 |
| Dail Dysynni | Rhodd | 101502 | £100.00 |
| Cwmni Tân Llyn | Arbrofi | 101503 | £33.00 |
| Jones & Jones | Pentref | 101504 | £390.85 |
| A.H. Jones | Trydan i'r Pafiliwn | 101505 | £60.00 |

**PENDERFYNIAD:** I dalu'r uchod.

5. Cais am gyfraniad ariannol:

   Derbyniwyd gais am gyfraniad ariannol gan Shelter Cymru.

   **PENDERFYNIAD:** i adael y cais ar y bwrdd.

6. Adolygu a mabwysiadu Rheoliadau Ariannol:

   **PENDERFYNIAD:** i ail-gyflwyno'r ddogfen ym mis Medi ar ôl gwneud newidiadau.

7. Cau cangen HSBC yn Nhywyn:

   **PENDERFYNIAD:** i anfon llythyr at HSBC yn datgan siom y Cyngor bod adnodd yn mynd o'r ardal, gyda'r Cynghorydd Bethan Lawton yn cynnig a'r Cynghorydd Arwel Pierce yn eilio'r cynnig.

8. Cae Chwarae - Adroddiad:

   Adroddiad ROSPA wedi ei dderbyn. Popeth yn iawn, gyda'r pwyntiau yn risg isel. Archeb wedi ei gyflwyno am bolyn newydd.

   **PENDERFYNIAD:** I anfon llythyr at y Clwb Pêl-droed parthed yr arian sy'n ddyledus a gofyn iddynt hysbysu'r Cyngor o flaen llaw am unrhyw ddefnydd. Y Cynghorydd Richard Evans i edrych am bris ar gyfer bwrdd picnic newydd yn y Sioe Amaethyddol.

**9.** Adroddiad y Cynghorydd Sir**:**

Nifer isel wedi mynychu cyfarfod Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn Abergynolwyn. Nodwyd bod y Cynllun Datblygu Lleol yn caei ei addasu a bod modd cynnwys tir ychwanegol.

Nodwyd bod ad-daliad TAW wedi ei dderbyn a bod Cyngor Gwynedd yn cynnal gwaith ar y llwybrau cerdded.

**PENDERFYNIAD:** I ysgrifennu llythyr ar Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn gofyn am boster er mwyn hysbysu trigolion lleol am adolygiad y Parc o'r Cynllun Datblygu Lleol a bod modd cynnwys tir ychwanegol. Ysgrifennu llythyr at Cyfoeth Naturiol Cymru ym Mhlas Menai ynglŷn â Ffos Fawr, Bro Dysynni – gan fod anifeiliaid wedi boddi yn y ffos ac i weld fel bod angen gwaith er mwyn i'r dŵr symud o'r tir.

10. Cyngor Gwynedd - Gorfodaeth Stryd - Cwestiynau Glendid Stryd:

Dylai Cyngor Gwynedd fod llawer iawn mwy cadarn nag y mae ar hyn o bryd wrth daclo pobl sy'n gollwng sbwriel ar y stryd neu gadael i'w cŵn faeddu llwybrau a phalmentydd?

Dylai Cyngor Gwynedd rhoi dirwy yn y fan ar lle i unrhyw un sy'n cael ei ddal yn cyflawni trosedd amgylcheddol – pethau fel gollwng bonau sigaréts, gwm cnoi neu ganiau diod ar y llawr neu adael i'w cŵn faeddu mewn mannau cyhoeddus?

Os nad oes gan Gyngor Gwynedd yr arian i fynd ar ôl a chosbi pobl sy'n lluchio sbwriel neu ganiatáu baeddu cŵn ar ein strydoedd, dylent fod yn barod i ddefnyddio cwmni allanol / masnachol i wneud y gwaith yma gyda'r Cyngor?

**PENDERFYNIAD:** I ateb yr holiadur:
Dylid
Dylid
Na ddylid

11. Cyngor Gwynedd - Cefnogaeth Gorfforaethol – Cais i weithio mewn partneriaeth i gadw toiled ym Mryncrug yn agored yn 2017/18 a dulliau eraill o gynnal y ddarpariaeth wedyn:

**PENDERFYNIAD:** I lunio holiadur er mwyn gofyn barc y cyhoedd, cynnwys cwestiwn am gynnal a chadw'r pentref e.e. torri gwair.

12. Unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd:

Derbyniwyd llythyr gan y Ganolfan yn gofyn i'r Cyngor drefnu noson tân gwyllt.

**PENDERFYNIAD:** i ychwanegu cwestiwn yn yr holiadur yn gofyn barn y cyhoedd am godi'r bresept er mwyn talu am dân gwyllt. I anfon anfoneb i Bwyllgor y Carnifal am ddefnydd o'r Cae.

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 8:53pm

Llofnod y Cadeirydd ............................................................